DINESYDD
CHWEFROR
PAPUR CYMRAEG
CAERDYDD A'R CYLCH
1983
RHIF 93

# TARO DAU DDERYN

Â saga y clwb Cymraeg yn ei blaen. Bu llygad C.C.C.C. ar sawl adeilad ond nid yw'r clwb fawr yn nes i fod yn realiti, yn ôl y sôn.

Â saga Eglwys y Crwys hithau yn ei blaen. Mae'n ymddangos mai rhai sâl ydym pan ddaw hi i frics a mortar. Efallai y gallai'r ddau fudiad ddod ynghyd. Petai Cymdeithas Clwb Cymraeg Caerdydd yn prynu Capel y Crwys, gallai'r capel fuddsoddi ei elw mewn adeilad arall, a chai'r C.C.C.C. grant hael gan y bragwyr i adnewyddu'r hen le.

Mae'r safle yn un ardderchog i glwb. Agos at ganol y ddinas. Safle cyfleus. Digon o le i barcio a chlientel barod. Fel y dywedodd Owen John Thomas, Cadeirydd y Gymdeithas wrthym :
"Mae angen am sefydliadau Cymraeg, megis clybiau, yn fwy nag erioed ym mhob rhan o Gymru", meddai, "Dim ond mewn lleiafrif bychan o gartrefi y mae Cymraeg yn iaith i bob aelod o'r teulu ac felly mae'n rhaid i ni greu'r awyrgylch lle gallai dysgwyr neu siaradwyr brodorol gael y cyfle i ddefnyddio'r iaith yn naturiol ac yn gyson mewn amgylchiadau hamddenol a difyr. Petawn ni'n gweld adeilad addas yfory, dylai fod yn bosibl yn awr i ni ddod â'r maen i'r wal ymhen mis. Yn y cyfamser, mae eisiau mwy o bobl i ddod yn aelodau oes. Yn ara' deg, mae'r syniad o ffurfio clybiau Cymraeg yn cydio ac mae'n ymddangos yn bur debyg y bydd sefydliadau felly yn Abertawe a Phontypridd cyn bo hir".

Dylai'r rhai sydd eisiau helpu C.C.C.C. gysylltu â'r Ysgrifennydd: Nic ap Glyn, 135, Keppoch Street, Plasnewydd, Caerdydd. Ffôn: 497414.




# bobol anNWYl am GAS-ineb!

Prynodd un o ddarllenwyr Y DINESYDD dân nwy yn Colorama Cowbridge Road. Talodd â siec Gymraeg. Dros gyfnod o fisoedd prynodd jariau nwy yn ôl yr angen - eto gan dalu â siec Gymraeg. Ond ar ddydd Sadwrn yn ddiweddar gwrthodwyd ei siec Gymraeg ac nid oedd modd iddi gael jar o nwy i'w thân. Yn gefn iddi, aeth ei thad ac arbennigwr ar y gyfraith i achub ei cham - ond yn anffodus bod - wel na nid bod, ond dim i'w dim oedd eu dylanwad. Bygythiwyd y siop â chyhoeddusrwydd anffafriol - ac fe gafwyd yr ymateb - bod pob cyhoeddusrwydd pa fath bynnag yn well na dim cyhoeddusrwydd o gwbwl!

Y dilema bellach oedd ymladd dros egwyddor neu adael i ferch ifanc rynnu yn ei fflat. Daeth fflach o ysbrydoliaeth - mae Colorama arall yn City Rd. Yno cafwyd dyn clên iawn a dderbyniodd siec Gymraeg yn llawen gan ddeud "Its nice to see some Welsh" er bod Colorama Cowbridge Rd. wedi dweud mai polisi y cwmni oedd gwrthod sieciau Cymraeg. Felly os oes gennych jariau nwy - ewch i Colorama City Road am ail gyflenwad a chadwch draw o Colorama Cowbridge Road.

GOLYGYDDOL

Mae ymgyrch y papurau toriaidd yn erbyn Ymgyrch Gwrth-niwclear y Merched yn Greenham Common wedi dechrau o ddifrif. Mae hynny'n arwydd da, achos golyga fod y llywodraeth yn ei chymryd o ddifrif. A hithau bron yn sicr yn flwyddyn etholiad cyffredinol, mae pwysigrwydd gwleidyddol y mudiad hwn yn tyfu fwyfwy bob dydd.

Nid dod â thaflegrau niwclear o America i'w lleoli yno yw unig gonsyrn y merched hyn. Fe wyddom eisioes y byddai Caerdydd yn darged sicr petai rhyfel niwclear. Ond nid hynny ychwaith sy'n gwneud y pwnc yn bwnc llosg i bob un ohonom - er y bydda'i gair llosg yn berthnasol iawn petai rhyfel o'r fath byth yn dod ar ein cyfyl.

Daeth yr holl egwyddor o ddefnyddio grym niwclear yn un canolog yn y byd militaraidd. Mae ffurf rhyfeloedd y dyfodol eisioes wedi ei bennu, efallai. Bydd rhaid wrth rym gwleidyddol i'w newid. Ni fydd dylanwadu ar wleidyddion yn ddigon. Bydd rhaid eu cael i newid eu meddyliau yn sylfaenol. Fe gymer un U-turn anferthol - a hynny ar raddfa fyd-eang.

Pwy all wadu nad yw'n dasg aruthrol? Tybed, yn sgil hynny, pam mai mudiad merched yn unig yw'r un sy'n cael ei gynnal yn Greenham Common? Ceisiwyd egluro hynny fwy nag unwaith yn ystod y misoedd diwethaf hyn, ond heb fawr o lwyddiant.

Mae rhannu'r ddynoliaeth a hawlio monopoli ar fater o dragwyddol bwys fel hwn yn beth rhyfedd iawn. Mae cael merched yn rhannu ar sail rhyw yn rhyfeddach byth. Serch hynny, mae edmygedd yn dod yn amlwg i'w rhan - yn enwedig a'r rhieni (rhai ohonynt o ddalgylch y Dinesydd) a aeth i'r carchar yn ddiweddar.

Mae eleni yn flwyddyn dyngedfennol. Rhaid i holl bwerau'r byd ddod ynghyd. Gwir y dywed y rhai sydd o blaid arfogi pellach fod y materion hyn yn rhy bwysig i'w trafod yn emosiynol. Eto anodd peidio â dangos peth emosiwn wrth drafod difodiant gwareiddiad. A chofied pob un ohonom na chawn ond un cyfle i fyw y flwyddyn hon. Dylai'r byw hwnnw fod o blaid bywyd. Wedi'r cyfan, dim ond i hunanladdwr y mae "yfory" yn air brwnt.

Gyda'r rhifyn nesaf bydd Y Dinesydd yn dathlu deng mlynedd o fywyd. Fe garem oll fod yma i ddathlu ymhen deng mlynedd arall.

# Y CALENDR

Chwefror

4 Y Cymrodorion yn Festri Ebeneser. Garddio - Sgwrs a sleidiau gan Mr. Dafydd Bowen. 7.15 p.m.

6, Nos Sul, Eglwys Ebeneser, Heol Siarl. CYMANFA GANU DR. BARNARDO, 8 p.m. Arweinydd: Alun Guy Organydd: Brian Evans Bydd y BBC yn recordio'r rhaglen. Rhaglenni 50c wrth y drws.

7 Merched y Wawr yn Festri Minny St., 7.30 p.m. Arferion Golchi - Mrs. Minwel Tibbott

9 Cymdeithas y Dysgwyr, Tŷ'r Cymry, 8 p.m. Noson Gymdeithasol.

9 CYNGERDD gan GOR A CHERDDORFA YSGOL GYFUN GLANTAF o dan arweiniad ALUN GUY yn Eglwys Dewi Sant, Heol Windsor, Caerdydd, 7.30 p.m. Tocynnau: £1; Plant 50c.

10 Merched y Wawr Gwent, Ystafell 149, Y Ganolfan Ddinesig, Casnewydd. 7.30 p.m., Siaradwr: Mr. T. Alun Davies

11 Cymdeithas Cymry'r Eglwysnewydd, yn Festri Bethel, Penlline Road am 7.30. Mrs. Beti Wyn Davies.

26 NOSON GWIN A CHAWS yng Nghanolfan yr Heath Citizens, King George Vth Drive, gyda CARYL PARRY JONES 8 p.m. - 12 p.m. Tocynnau: £2. Dan nawdd Ysgol Feithrin Y Waun.

APEL AR I BOB CYMDEITHAS ANFON DYDDIADAU EU CYFARFOD DATHLU GWYL DDEWI ER MWYN RHOI RHESTR LLAWN I'R DARLLENWYR.

Mawrth:

8 Neuadd Dewi Sant Caerdydd 7 p.m. NOSON gan Ysgolion Cynradd ac Uwchradd De Morgannwg o dan nawdd Pwyllgor Cerdd Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 1985.

11 DATGANIAD AR YR ORGAN gan yr organydd enwog PETER HURFORD yn Eglwys Dewi Sant, Caerdydd. 7.30 p.m. Tocynnau: £2; Pensiynwyr a myfyrwyr £1.50.

11 Cymdeithas Cymry'r Eglwysnewydd, yn Festri Bethel, Penlline Rd. am 7.30, DATHLU GŴYL DDEWI, Gŵr Gwadd: Dr. Elwyn Hughes.

Llongyfarchion i blant y Dinesydd ar eu llwyddiant yn arholiadau allanol Coleg Cerddorol Llundain : Piano: Gris 2, ELERI OWEN JONES, 134 Cyncoed Road; Gris 3, ELERI JONES, 1 Westminster Drive; Gradd 1, LISA MARGARET DAVIES, 9 Lady Mary Road (Dosbarth 1); Gradd 1, SIAN JONES, 1 Briarwood Drive; Gradd 2, RHYS OWEN JONES, 314 Cyncoed Road (Dosbarth 1); Gradd 3, CATRIN PARRY, 18 Egremont Rd.

Theori

Gradd 3, HUW JONES, 1 Briarwood Drive (Dosbarth 1); Gradd 3, RHIAN WILLIAMS 17 Woodvale Ave. (Dosbarth 1); Gradd 4, GWENAN EVANS, 41, Heath Park Ave.(Dosbarth 1); Gradd 4, ANDREW DIPLOCK, 98 Pendwyallt Rd. (Dosbarth 1).

Y maent yn ddisgyblion i Mrs. Jennie Evans, Hafodlon, Heath Park Ave.


**Y DINESYDD**
**561788**

Os wyt am werthu carped
Neu semi yn Llandaf,
Cyhoeddi dyweddïad
Neu osod y tŷ haf.
Os wyt am fodrwy priodas
Neu brynu parot dôf;
Os wyt am werthu'r teli
Neu splasho mas ar stôf;
Os wyt am wres canolog
Pan fydd y tŷ yn oer;
Os wyt am Heulwen dyner
I ddiorseddu'r lloer,
FFONIA Y DINESYDD
O'r Rhath i Lan y Llyn
PUMP CHWECH UN SAITH WYTH WYTH
A MYNNA AIR A WYN


**HYSBYSEBWCH YN Y DINESYDD**
**561788**

# DINESYDD Y PLANT

Mae'r geiriau yma ar goll o fewn y patrwm o lythrennau. Chwiliwch amdanynt, a rhowch linell drwy bob gair sy'n dod i'r amlwg.

| caddug | storm |
|---|---|
| mellten | taran |
| eira | eirlaw |
| glaw | hindda |
| gwynt | tarth |
| haul | enfys |
| cwmwl | niwl |
| cesair | barrug |
| cenllysg | |
| rhew | |

| | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| a | c | t | a | r | th | b | g | w | y | n | t | dd |
| b | e | a | c | ch | r | p | l | r | s | g | b | e |
| h | w | r | c | e | i | r | a | n | o | a | a | i |
| i | m | a | b | m | dd | o | w | m | c | ll | r | r |
| n | o | n | h | n | w | i | m | rh | e | w | r | l |
| dd | c | e | s | a | i | r | rh | e | n | y | u | a |
| a | y | b | a | w | u | h | a | g | ll | w | g | w |
| o | n | c | w | m | w | l | c | ch | y | t | o | e |
| d | e | i | l | b | e | n | f | y | s | u | e | f |
| n | s | e | w | i | dd | g | b | c | g | s | m | n |
| a | g | d | r | l | s | t | o | r | m | r | i | g |
| rh | e | c | a | dd | u | g | e | dd | b | p | ll | h |




MISOEDD Y FLWYDDYN

RIWOAN
YAGRRFH
TSAW
LELBRI
DTDAHCEW
FGAONFNFRE
HTMWAR
FHEYRD
FNMIHEE
ROHCREWF
IDME
IAM





# Y SILFF LYFRAU

Alun Ifans, GAF I DDWEUD STORI? Gwasg Gomer, £1.95, CBAC.
Alun Ifans, PEDAIR CAINC Y MABINOGI I DDYSGWYR, Gwasg y Dref Wen, £1.50, CBAC.
Ivor Owen, Y FERCH O BALLYMOY A STORIAU ERAILL, Gwasg Gomer, £2.75, CBAC

Cyfrol ddefnyddiol iawn yw GAF I DDWEUD STORI? ar gyfer ysgolion neu ddosbarthiadau nos. Gwn y basai'r disgyblion dosbarth 4 sy gen i yn dwli arni. Cyfres o luniau neu gartwnau slic a geir yma gyda geirfaoedd ar gyfer pob stori. Rhaid wrth wybodaeth dda o'r amser gorffennol, dybia i, cyn y gall y dysgwr fwrw ati i adrodd y storiau yma'n llwyddiannus. Wedi dweud hyn, rhaid nodi fod rhai o'r geirfaoedd yn syml ar y naw.
Gan fod adrodd stori yn y dull yma'n rhan o arholiad llafar TAU a TAG, bydd croeso brwd iawn i'r gyfrol hon yn yr ysgolion uwchradd. Rhaid llongyfarch Glyn Rees ar ei luniau deniadol a doniol.

Rhaid nodi, serch hynny, fod y gyfrol yn un 'sexist'. Allan o 30 o storiau dim ond mewn dwy neu dair ohonynt y gwelir merch yn chwarae rhan. Hobiau gwrywaidd sy yma bron yn ddieithriad. Nid oes digon o gyfle felly i ddefnyddio trydydd person benywaidd y ferf.
Yn y math hwn o lyfr basai'n ddefnyddiol rhoi enghreifftiau o iaith emosiwn y cymeriadau ac enghreifftiau o ebychiadau idiomau a chystrawennau bachog. Crafu'r wyneb yn unig a wnaed hyd yn hyn yn y maes yma. Rhydd y gyfrol hon siawns i'r athro ail-iaith gyflwyno myrdd o idiomau newydd i'r plant. Y mae'n bwysig fod yr athro, yn ogystal â'r dysgwr, yn paratoi'r storiau'n fanwl gan wneud yn fawr o'r hiwmor a'r cyffro sydd ynddynt.

Gan yr un awdur ceir addasiad canmoladwy iawn o BEDAIR CAINC Y MABINOGI. Nid tasg hawdd oedd hi i gwtogi ac addasu'r ceinciau ar gyfer dysgwyr. Yn naturiol, bu'n rhaid ffarwelio â swyn a chyfaredd iaith y cyfarwydd er mwyn cynnig rhagflas o'r ceinciau i'n dysgwyr.
Bu Alun Ifans yn ddigon craff i beidio â'i gyfyngu'i hun at ffurfiau Cymraeg Byw yn unig. Dyna fyddai dechrau problemau. Ceir lluniau addas gan Bernadette Watts a rhestri o eirfa a nodiadau i helpu'r darllenydd. Y mae cyflwyniad yn Saesneg gan yr Athro Brynley F. Roberts.

Fel y gŵyr pawb yn y byd ail iaith, y mae'r galw am lyfrynnau fel hwn yn ddi-baid. Yn y môr mawr gallu cymysg dyma fad achub y disgybl disglair. Efallai y cawn y chwedlau i gyd gan Mr. Ifans yn ystod 1983. Bydd croeso mawr iddynt.
Ac yn olaf dyma gyfrol raenus arall o waith Ivor Owen, cyfrol a wobrwywyd gan Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon 1979. Bwriedir y gyfrol ar gyfer dysgwyr 13-15 oed, ond bydd croeso mawr iddi gan blant iaith gyntaf ac oedolion hefyd. Chwe stori sy yma am Sam Tomos, gyrrwr lori o Gaerdydd. Mae'n gymeriad hoffus dros ben. Cymeriad sy'n llawn o biwmor a hyder. Y teip sy'n arwr i blant crynion. Rhyw fath o 'cool guy' Cymreig ydyw. Daw ei gyfrwystra i'r amlwg wrth drin arweinydd y picedwyr yn y stori gyntaf. Sylwer ar ei garedigrwydd tuag at Gwyneth yn y caffe a'i swildod gyda Sinead yn Iwerddon. Gall fod yn orhyderus, yn dipyn bach o geiliog, ond gwyddom nad yw o ddifri.
Y mae myrdd o gymariaethau hyfryd yn y gyfrol. Disgrifir y picedwyr ar dudalen 19 'fel pengwins', a'r lori 'fel rhyw hen wraig gant oed' (tud.82). Mae tad Sinead ar dudalen 104 yn chwythu'i drwyn 'fel corn llong ar y niwl'. Ar dudalen 33 disgrifir y tractor yn gyrru ymaith 'fel cath a'i phen ôl ar dân'. Mae dawn disgrifio Ivor Owen yma hefyd. Cawn enghraifft dda yn ei ddisgrifiad o Bantry Bay yn y stori olaf.
Y mae digon o gymorth i'r dysgwr i fwynhau'r gyfrol. Ceir nodiadau gramadeg yn y cefn a rhestri o eirfa a chystrawennau ar bob tudalen. Baswn i'n cynnig y term 'pendil glaw', am 'windscreen wiper' yn hytrach na 'sychwr'.
Chwe stori amrywiol am gymeriad sy'n apelio at bawb. Cyfrol ddarllenadwy iawn, wedi'i harlunio'n gywrain gan Roger Jones.

J.B.Z. Davies.

## LLONGYFARCH

Llongyfarchiadau i Seiriol a Vera Davies ar ddod yn Daid a Nain, i Huw ar ddod yn ewythr ond yn benna oll i Dewi a Nan Rowlands ar enedigaeth eu mab Ifan. Mae'r teulu bach wedi ymgartrefu ym Methel yn Arfon.

Llongyfarchiadau i Manon Jenkins ar ennill lle yng Ngholeg Sant Ioan, Caergrawnt ar gyfer mis Hydref nesaf. Mae Manon yn ddisgybl yn Ysgol Llanhari ac yn ferch i Mr. a Mrs. Emyr Jenkins, Mavis Grove, Rhiwbeina. Bydd yn darllen Astudiaethau Celtaidd.

Mae dau ddisgybl arall o Lanharri wedi sicrhau lleoedd iddynt eu hunain yng Ngholeg Keeble, Rhydychen. Bydd Cheryl Edwards (Dinas Powys) a Jeffrey Bennett (Maesteg) yn darllen Athroniaeth, Gwleidyddiaeth ac Economeg. Mae'r naill a'r llall yn dod o gartrefi di-Gymraeg a braf yw eu gweld nhw a'r ysgol yn cyfiawnhau ffydd eu rhieni mewn addysg Gymraeg.

**HYSBYSEBWCH YN Y DINESYDD 561788**

Dymunwn yn dda i Geraint Stanley Jones, Rhiannon, Sioned a Siwan, yn eu cartre newydd yn 12 Lady Mary Road, Parc y Rhath, Caerdydd.

CYDYMDEIMLO

Cydymdeimlwn â theulu sydd a'u cysylltiad â Salem Canton yn cwmpasu cyfnod hir iawn. Cydymdeimlwn â Richard Hall Williams a'i frawd Eryl yn eu colled o golli'i mam. Hefyd â'r teulu i gyd, Nia, Connie, a'r wyrion Beti Wyn, Carys, Huw a Gareth.

DYRCHAFIAD I GYMRO ARALL

Mae e wedi ei naddu'n drwm. Yn gwmws, a dyw'r blynyddoedd a'u elfennau ddim wedi crychu ei rysglin na marcio ei foncyff. Mynnodd yntau naddu ei feddwl a'i ddiwylliant mewn ysgol a choleg a bu ei fyfyrgell yn siop waith lle y naddodd â'i brofiad ac a'i ysgolheictod bregethau a gyffyrddodd â chalon cenedl. Tyst i hynny yw'r gyfrol o bregethau a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Wasg John Penry. Mae ôl y saerniwr arnynt. Mae camrau ei bererindod yn wybyddus. O'r coleg i Bencader, a pha le gwell i Annibynwr i fwrw'i brentisiaeth? Yna i Gaerdydd i Ebeneser, lle y treuliodd flynyddoedd ffrwythlon iawn. Er mai Caerdydd oedd ei drigfan, bu'n bererin pregethwrol o Fynwy i Fôn, a thu hwnt i'r terfynau. I ychydig y rhoddwyd tair tafod, ond breintiodd y Creawdwr Emlyn Jenkins â thair huawdl. Pe glynai ei dafod wrth daflod ei enau byddai ei ddwylo mirain yn para i lefaru. Tylinodd bob gair a ddaeth o'i enau gydag ystum a symudiad addas cyn eu gosod ar blat ei gynulleidfa. Fe'i perchir, yn wir, fe'i edmygir am ei amryw ddoniau. Gwnaeth gyfraniad fel llenor. Eisteddodd yn y prif gadeiriau am ei fod yn haeddu'r cyfryw. Gŵyr Cymru am ei safiad dewr tros ddirwest a moes. Gallai'r dwylo caredig droi'n ddwrn bygythiol ar dro. Er ei fod yn un o'r rhai addfwyn, ymhlyg yn yr addfwynder y mae rhuddin cadarn nas syflir. Proffwyd yn wir.

Pan ddaeth Coleg Diwinyddol Genefa i ddewis gweinidog o Gymro i'w anrhydeddu, nid oedd ronyn o amheuaeth na ddylid cynnig gradd doethor mewn Llenyddiaeth er anrhydedd i'r Parchedig Emlyn G. Jenkins am ei gyfraniad amlweddog. Gan fod y coleg yn darparu cyrsiau i weinidogion a lleygwyr sy ar y maes ac yn gosod pwyslais ar y weinidogaeth ymarferol, mae'r Parch Emlyn Jenkins yn enghraifft nodedig o'r math o berson y darpara'r coleg ar ei gyfer. Felly dyma gyfarch y Parchedig Ddoethor Emlyn G. Jenkins, a'i briod, oherwydd y mae iddi hithau ran yn yr anrhydedd. Boed iddynt flynyddoedd i fwynhau a gwisgo'r anrhydedd cwbl deilwng hon.

# RICHARD WILSON

Yr arddangosfa fwyaf o waith yr artist

Agorir yr arddangosfa fwyaf erioed o weithiau'r artist o Gymro, Richard Wilson, yn yr Amgueddfa Genedlaethol ar 29 Ionawr. Rhai, yn unig, o'r darluniau sy'n gyfarwydd i'r cyhoedd oherwydd y mae y rhan fwyaf ohonynt ar fenthyg o gasgliadau preifat ym Mhrydain a gwledydd tramor, gan gynnwys Amsterdam, Chicago, Melbourne, Munich, Efrog Newydd ac Ottawa.


Trefnwyd yr arddangosfa gan Oriel y Tate i goffau daucanmlwyddiant marwolaeth Richard Wilson a bydd ar agor yng Nghaerdydd tan 20 Mawrth. Bydd y rhan fwyaf o orielau celf yr Amgueddfa yn cael eu defnyddio i arddangos y 135 o beintiadau a dyluniadau'r artist, ac y mae'n un o'r arddangosfeydd mwyaf o ran maint a welwyd yn yr Amgueddfa erioed. Cynhwysir rhai o weithiau olew enfawr Wilson.

"SUBTERRANEA"

Llwyddodd Gweithdy Murarlunio Gwaelod y Garth i ennill yr ail wobr o £150 gan Gwmni Paent Dulux o dan y Cynllun Cywaith Cymdeithasol y Cwmni. Hwn oedd un o 14 allan o 2,000 drwy Brydain (yr unig un yng Nghymru hefyd) a ddewiswyd gan Dulux yn y gystadleuaeth y rhai mwyaf creadigol ac o les i'r gymdeithas.

Bu tua 25 o bobl ieuanc y pentref, oedran 12-20 - rhai ysgol (Rhydfelen a Llanhari) a rhai di-waith o dan arweiniad Janet a Rhys Daniel, sefydlwyr y Gweithdy, yn gweithio'n ddiwyd o'r cynllunio i'r paentio.

Gwelid murluniau mawr ar waliau twnel ac o gwmpas llwybr troed sy'n cysylltu pentref Gwaelod y Garth a Ffynnon Taf, Morgannwg Ganol. Maent yn cynnwys ffurfiau paentiedig o greaduriaid, pryfed a phlanhigion dychmygol yn gweu i'w gilydd ac yn creu "subterranea" - y syniad o'r bywyd ffantasi o dan y ddaear ac yn rhan o Fynydd y Garth fel petai.



Llun Richard Wilson neu Furlun Gwaelod y Garth. Cewch chi ddyfalu!

# Y GOLOFN GAIN gan ARFON

Bu'r Prifardd Alan Llwyd yn gweithio yma yng Nghaerdydd am ddwy flynedd ac, er ei fod yn awr yn ei ôl yn Abertawe, mae'n dal i ddod draw i Dŷ'r Cymry bob nos Lun i gadw dosbarth ar farddoniaeth y ganrif hon. Cyhoeddodd ei chweched cyfrol o gerddi y llynedd dan y teitl 'Yn Nydd yr Anghenfil', cyfrol y mae gennyf i reswm arbennig i fod yn falch ohoni, a daw'r wythfed cyfrol o'r wasg gyda hyn dan y teitl 'Marwnad o Dirdeunaw'. Cyfres o gerddi dwys ond gorfoleddus a ysbrydolwyd gan gystudd a marwolaeth modryb ei wraig fydd yn honno, ac mae disgwyl mawr am gael gwaith diweddaraf y bardd rhyfeddol hwn i'n dwylo.

Mae'n debyg mai yn yr wythfed cyfrol, pan ddaw honno, y cynhwysir y gerdd nodedig isod. Mae'n gweld golau dydd am y tro cyntaf yn y golofn hon, a braint arbennig yw cael ei chyhoeddi yn y Dinesydd. Diolch i Alan amdani.

YMWELD AG EGLWYS SANT IOAN FEDYDDIWR, CAERDYDD

Ni fentrais i mewn ar fy union; yr oedd untroed o blaid
ac untroed yn erbyn, ac oedais yng nghysgod y gromen
am eiliad neu ddwy, eithr mentro er hynny oedd raid
i weld yr addoldy. O'r cyntedd, lle'r oedd dwy golomen
yn pigo'u cynhaliaeth, symudais i'r eglwys am hoe
rhag trawst y traed a'r drafnidiaeth, a chael, drwy fynediad
i'w chysegr, dawelwch, y tu draw i ddadwrdd cerddediad
a rhygniad rhugl y dorf ar y cerrig oer.

Pa beth a'm cymhellodd? Ei hallor, efallai, neu'r côr;
neu ai chwennych gweld arwydd yr Arglwydd, yn sŵn ei hosanna? -
Gweld un o firaglau Duw y tu ôl i'w dôr,
miragl megis treigl y maen neu argoel y manna,
a Duw yn dod o'i feudwyaeth, a chynhyrfiad ei awel
yn cyffwrdd â'r merddwr, neu wyrth megis porthi'r pum mil,
neu wyrth fel y dŵr yn troi'n win, a minnau'n ei sgîl
yn ymglywed â dirgelwch Duw'n yr awyrgylch dawel?

Yr oedd yno ddistawrwydd, distawrwydd fel sancteiddrwydd Duw,
ond nid oedd yno firagl; nid oedd un dim anghyfarwydd
ac eithrio'r ust hyglyw, llond eglwys o ust ar fy nghlyw,
tawelwch yn llawn o ddirgelwch, ond heb gael yr un arwydd,
ac nid oedd ond sŵn fy nhraed yn atseinio, a thraed
y dorf, y tu allan, i darfu ar y naws cysegredig,
ond nid oedd yno firagl; ni lifeiriodd o gorff archolledig
ein Harglwydd Grist i'r un caregl ei ddagrau a'i waed.

Cerddais o amgylch gan edmygu lliw fflamgoch pob paen,
a phatrymau'r haul yn amryliw yn un o'r ffenestri
yn ymrithio'n berth, honno'n llosgi heb losgi o'm blaen,
a'r angel â'i law ar y delyn, a dwylo'n dal llestri;
hithau'r gannwyll fer yn diferu, fel pe bai'n edifeiriol,
ei dagrau o wêr yn y gongl, yng nghysgod y Groes,
lle'r ymgrogai Mab Mair yn ei lesmair dirdynnol a'i loes,
ond ni ddaeth yr un miragl nac arwydd o'r distawrwydd dieiriol.

Ni wn paham y petrusais cyn tramwy drwy'r ddôr.
Ai ofn y distawrwydd oedd arnaf, gan nad wyf yn anffydiwr,
neu ai oedi rhag wynebu'r Duwdod, gan ofni fy Iôr,
ofni canfod ei wedd yn eglwys Ioan Fedyddiwr?
Neu ai ofn i ddiddymdra fy ysbryd, wrth ei ddisgwyl, ddisgyn
yn eco oer ar y cerrig wrth gerdded y llawr,
ofn clywed fy enaid fy hunan yn y gwacter mawr
fel y ceudod y tu mewn i gneuen wedi diosg y plisgyn?

Yr oedd yno ddistawrwydd, ac yn y distawrwydd 'roedd Duw;
yr oedd yno dawelwch, ac yn y tawelwch dystiolaeth;
yr oedd yno, rhwng y muriau marwaidd, bresenoldeb byw,
nid presenoldeb y delwau, ond dirgelwch bodolaeth
yr Un sydd yn estyn gwahoddiad, er ymguddio o'n gŵydd,
i fyfyrio ar ystyr yr ust, ac i wrando'r mudandod
y tu hwnt i brysurdeb a dwndwr ein hoes ddisyfrdandod,
cyfnod y myrdd rhyfeddodau, a dyddiau'r miraglau rhwydd.

Alan Llwyd.

MAE GEN I BROBLEM gan

BES YNBOD

(Cyfle i aelodau Clwb Peldroed Cymric drafod eu problemau gyda Bes).

ANNWYL BES,
MAE GENNYM FABI NEWYDD YN Y TY ERS RHYW YCHYDIG DDYDDIAU CYN Y NADOLIG AC YR WYF YN AWYDDUS IDDO BEIDIO AC EFFEITHIO AR FY MHEL-DROED I. BETH YW'R CYNGOR?

(Rheon Tomos)

Ateb: Wel yn gyntaf, llongyfarchiadau i ti ac Einir ar enedigaeth Aled Rheon. Yn sicr fe wnaethoch y dewis iawn i gael mab, a bydd dyfodol y clwb pel-droed ar ei ennill o'r herwydd bid siŵr. Ond i drafod dy broblem di, ydi, mae cael babi yn y tŷ yn mynd i achosi trafferthion di-ri ac yn saff o gael effaith andwyol ar dy bel-droed di. Mae'n rhaid iti sicrhau dy ddogn teg o gwsg, yn enwedig ar nos Iau a nos Wener cyn dydd Sadwrn y gêm. Wrth reswm mae nos Iau a nos Wener yn dod o flaen dydd Sadwrn trwy gydol y flwyddyn ac nid yn ystod y tymor peldroed yn unig,felly mi ddylet allu sicrhau gyda peth pendantrwydd pa nosweithiau ydi'r rhai Iau a Gwener. Rhaid iti ofalu cysgu a dy ben o dan y dillad fel nad yw'n bosibl clywed unrhyw rwgnach o du'r epil; rhaid gofalu fod y wraig yn codi'n syth pan ddaw'r wae gyntaf o'r crud fel nad wyt yn cael dy styrbio, rhaid iddi beidio troi'r golau ymlaen yn yr ystafell wely,

a rhaid iddi symud o gwmpas y tŷ mor ddistaw ag y bo modd. Wedi iddi fwydo'r babi, rhaid fydd iddi ddod a brecwast llawn iti yn y gwely ar fore'r gêm a rhaid gofalu fod y tywel mwyaf moethus a'r sebon mwyaf persawrus ar dy gyfer yn yr ystafell molchi. Rhaid iddi hefyd wrth gwrs ofalu bod y dillad peldroed yn hwylus i'w darganfod - paid â'u cadw hefo'r clytiau a'r gweddill o'r dillad babi rhag ofn iti ddigwydd dod a'r offer anghywir gyda thi yn y bag. Gofala hefyd fod y wraig wedi rhoi sglein ar y sgidia peldroed, a gwna'n siwr fod pres peint yn dy boced cyn gadael y tŷ.

***********

ANNWYL BES,
RYDWI NEWYDD BRYNU MODRWY I'R FERCH IFANC YMA AC YN AWYDDUS I WYBOD SUT MAE RHOI FY NGHALON I BELDROED AC IDDI HITHAU?

(Huw Dafis)

Ateb: Mae'n amlwg eich bod chi yn gwneud pethau mewn steil. Rydwi wedi clywed y stori am y seren honno uwch Bethlehem ar ddydd Nadolig yn rhywle o'r blaen, ond dyna chithau yn mynnu eich seren ddisglair eich hunain ar ffurf modrwy aur a diamwnt. Llongyfar-chiadau calonnog ichi'ch dau ar achlysur eich dyweddiad ar ddiwrnod Nadolig 1982.
Peth anodd ryfeddol ydi rhoi'ch calon i ddau beth ynte - mae rhywun yn gallu colli ei ben yn aml am

wahanol resymau

wahanol resymau - ond mater arall ydi'r galon. Paid ag anghofio Huw bach mai pel-droed sydd wedi dy wneud yr hyn ydwyt - mae'r gwersi rheini yn yr ystafell newid ac yn y Clwb Trydan wedi'r gêm yn gystal gwersi ar fywyd ag a gei yn unman. Pel-droed piau pnawn Sadwrn, nid amser i fercheta a siopa a phethau benywaidd eraill ydio. Cymer di dy amser cyn meddwl am roi dy ddwy droed yn y mwdwl, mae na gemau di-rif i'w chwarae ar feysydd Pont-canna a Threlai cyn y cei roi dy dalon i unrhyw un neu beth arall. A tydi'r merched ma'n hunanol dywedwch - newydd gael modrwy, ac eisiau dy galon! Gan bwyll, Huw, gan bwyll.

*************

ANNWYL BES,
YR YDWI'N DISGWYL BABI CYN HIR, AC MAE FY NGŴR YN BERCHEN AR BAR O DDWYLO PUR SIMSAN, MAE'N GOLLWNG POPETH MAE'N GYDIO YNDDO. BETH WNAF?

(Mrs. Haulwen Huws)

Ateb: Problem ddychrynllyd o ddyrys Mrs. Huws ac mae'n anodd gwybod am unrhyw gyngor pendant i'w gynnig. Yn naturiol ddigon fydd dim posibl i'ch gŵr fynd yn agos i'r babi a chredaf mai'r peth doethaf fyddai ei yrru allan i'r ardd i chwynnu neu lanhau neu unrhyw beth tra byddwch yn bwydo neu newid clytiau. Gallaf gydymdeimlo â chi yn y sefyllfa hon, ond wir 'rydwi wedi gweld eich gŵr yn chwarae peldroed - golgeidwad ynte - ac wedi profi o'ch amryfusedd. Prynwch fabi dol iddo nawr a cheisiwch wella ei afiechyd o hyn hyd fis Mawrth.

***********

ANNWYL BES,
MAE FY NGŴR YN HEN OND DDIM YN DERBYN HYNNY. MAE'N MYNNU CHWARAE PELDROED O HYD. SUT Y GALLAF EI STOPIO?

(Mrs. Morfudd Huws)

Ateb: Rydwi wedi clywed si lawer gwaith am yr 'embarras' yma i'r tîm peldroed Mrs. Huws, chlywais i 'Royd' am y fath beth yn un man arall. Fel yr ydwi'n deall, pan fydd y rheolwr yn dewis y tîm yn wythnosol, deg dyn a Gareth fydd y dewisiad. Dim o'i le yn hynny ddywedwch, na, ond y broblem ydi mai o ofn ac nid o benderfyniad y gwneir hyn. Y drafferth fwyaf ydi cael digon o blwc i ddweud wrtho am y sefyllfa newydd sy'n bodoli yn y clwb â'r angen am feithrin gwaed ifanc. Lawer gwaith yr ydw i wedi ei weld yn cyrraedd y maes a rhoi'r ffon i guddio cyn mynd i'r ystafell newid. Mae'r cyhyrau yn dechrau mynd yn llipa bellach, y gwallt yn britho, y cerddediad yn arafu, a'r cof yn pylu. Mae'r hen fegin yn fwy myglyd erbyn hyn hefyd. Yda chi wedi trio cuddio ei sgidia peldroed o?

************************

Ac i sôn ychydig am y pel-droed go iawn, ychydig yn wir o gemau a chwaraewyd ym mis Rhagfyr a mis Ionawr hyd yma.
Mae'r tymor ar ei hanner bellach, a thri pwynt ar ddeg allan o'r un nifer o gemau i Glwb Cymric. Buddugoliaeth dda o 3-2 yn erbyn St. Patrick's, gyda Haydn, Gareth Roberts ac Elwyn Dafis yn sgorio.

Colli o 4-2 yn y gêm ganlynol yn erbyn St. Mary's. Huw P. ac Elwyn Dafis yn sgorio, ac yna ennill y gêm gyntaf yn 1983 yn erbyn Cwrt-y-Vil o 7-3, Rhodri 6 a Rheon yn sicrhau'r ddau bwynt.
Tydi'r Ail Dîm heb chwarae hyd yma yn 1983 ond cafwyd clo bendigedig i 1982 gyda dwy fuddugoliaeth gampus yn glod i waith brwd y capten, Alwyn Griffith, yn codi'r hwyl a chodi'r ysbryd. Bydd angen sawl buddugoliaeth arall yn 1983 i sicrhau lle yn yr adran bresennol am y tymhorau sydd i ddod.

Cofiwch am yr ymarfer yn Ysgol Glantaf, bob nos Fawrth o 6 - 7.30.

# YR AGORIAD

Wel dyma dudalen newydd i'r Dinesydd - tudalen i'r dysgwyr ac i'r Cymry Cymraeg. Cwestiwn i chi'r dysgwyr - Pam galw tudalen y Dysgwyr - Yr Agoriad?

----

Help i'r Dysgwr

Mae pawb ohonoch yn adnabod rhywun rwy'n siwr fyddai'n mynd ati i ddysgu Cymraeg petaech yn ei berswadio ychydig. Efallai fod yna rieni Saesneg eu hiaith yn gymdogion i chi a'u plant yn mynd i ysgol Gymraeg ac heb erioed feddwl am ddysgu Cymraeg eu hunain - Pam na wnewch chi dipyn o waith cenhadol yn eich ardal.

Os oes yna Gymry Cymraeg fyddai'n fodlon trefnu noson goffi i'r dysgwyr, yn eu cartref, yna cysylltwch â'r Dinesydd - bu yna lawer o nosweithiau o'r fath yn y gorffennol - mae'n hen bryd eu hatgyfodi.

Ydych chi'n hoffi peint mewn cwmni Cymraeg - wel y lle i gael cymdeithas o'r fath yw tafarn Y Conway ger Caeau Llandaf.

Mae Is-bwyllgor Dysgwyr Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 1985 wedi trefnu Cwrs Wlpan yng Nghanolfan yr Urdd, Heol Conwy, Caerdydd, dros y cyfnod 10 o Ionawr - 30 o Fawrth, 1983. Fe'i cynhelir ar bum noson yr wythnos o 7 - 9.15 o nos Lun i nos Wener.

Cost y Cwrs ydy £40 a bydd yr elw yn mynd tuag at gronfa'r Eisteddfod. Mae'r athrawon yn rhoi eu gwasanaeth am ddim a threfnir y Cwrs gan Heulwen Davies a Linda Moran. Am ragor o fanylion ffoniwch Caerdydd 564210.

Pan yng Nghanolfan yr Urdd, galwch yn Siop Taflen - mae llawer iawn o lyfrau diddorol iawn i ddysgwyr yno - ac mae'r siop ar agor tan saith o'r gloch bob nos.

CYRSIAU

Cwrs penwythnos i ddysgwyr yn Y Gwersyll, Llangrannog. 10-12fed Rhagfyr. Croeso mawr i blant a'u rhieni. Dysgwch gyda'ch gilydd.

Manylion oddi wrth John Albert, 6 Ridgeway, Llysfaen, Rhif Tel.Caerdydd 754559.

Cwrs Penwythnos yn Y Dyffryn, San Nicholas, ym mis Mawrth. Ffoniwch am fanylion neu ysgrifennwch at Y Warden, Tŷ Dyffryn, San Nicholas, Caerdydd.

Ydych chi wedi clywed am Ganolfan Iaith Nant-gwytheyrn. Dyma'r unig le yng Nghymru sy'n canolbwyntio ar ddysgu Cymraeg i oedolion. Rydyn ni'n trefnu cyrsiau ar gyfer cannoedd o ddysgwyr yn ystod 1983. Bydd y manylion allan cyn hir. Athrawon - beth am fynd a'ch dosbarth yno am benwythnos.

---

Dymuna'r Trysorydd ddiolch yn gynnes i'r canlynol am eu cyfraniadau a ddaeth i law ar ôl cyhoeddi rhifyn Rhagfyr/Ionawr.

Unigolion: Mr. a Mrs. Bernard Evans, Mrs. Cathy Jones, a'r Mri. G. Sloman a Geraint Jarman. (Cyfanswm o £50).

Cymdeithasau: Capel Salem Canton, Eglwys Heol y Crwys, Cymanfa Ganu Annibynwyr Caerdydd, Cymdeithas Dysgwyr Caerdydd, Athrawon a Disgyblion Ysgol Gyfun Rhydfelen ac Ysgol Gyfun Glantaf. (Cyfanswm o £162)

Yn ogystal derbyniwyd Archebion Banc oddi wrth: Mr. G. Sloman, Mrs. Mallt Anderson, Mr. a Mrs. C.A. Coles, Geraint Williams (Llandaf a Lusaka) sy'n darllen y Dinesydd yn Zambia; a'r Parch a Mrs. Ifan R. Williams. (Cyfanswm o £49 y flwyddyn).

Da yw cyhoeddi fod y Parti Nos Ystwyll ar Ionawr 8fed wedi bod yn llwyddiannus ymhob ystyr a gwnaed elw o £226 (Ond eto ddim yn ddigon i dalu am un rhifyn!) Diolch i bawb a ddaeth i gefnogi - ac i'r gweithwyr.

Mae'r derbyniadau hyn gyda'r arian ychwanegol a ddaeth i law ers dechrau'r apêl wedi galluogi'r Dinesydd i glirio pob bil gan adael bron i £100 mewn llaw.

Ond rhaid edrych at y dyfodol a cheisio cael rhagor o incwm cyson. Mae dau rifyn i'w cyhoeddi cyn diwedd y flwyddyn ariannol yma ar 31 Mawrth, ac angen £550 at hyn. Felly apelir unwaith eto am gyfraniadau oddi wrth y Cymdeithasau ac oddi wrth unigolion - ond gorau oll am Archebion Banc sydd mor bwysig er mwyn sicrhau incwm yn rheolaidd o flwyddyn i flwyddyn.

---

NOA, Cwmni Theatr Cymru, Theatr y Sherman

Drama hwyliog yn seiliedig ar hanes yr arch adeiladwr oedd hon. Fe'i hysbysebwyd fel drama i'r teulu ac roedd hynny'n berffaith deg, ond nid oedd yn addas i'r ugeiniau o blant oedran meithrin a ddygwyd i'r Sherman i'w gweld. Roedd llawer o'r gynulleidfa wedi disgwyl llawer mwy o sioe - ond nid yw hynny gyfystyr â dweud iddynt gael eu siomi ychwaith.

Drama ensemble a gafwyd. Aeth criw ifanc y cwmni i'r afael â'r sialens gydag egni a chryn fedrusrwydd. Roedd Emily Davies, Cyfarwyddwr y Cwmni, hithau wedi chwistrellu ynni a chyffro i bob munud o'r perfformiad. Ni chafodd synhwyrau'r gynulleidfa fod yn segur am eiliad a da hynny lle mae hi'n gynulleidfa ifanc.

Cafwyd set ddiddorol yn fframwaith i'r cynhyrchiad ac roedd y goleuni gwyn i gynrychioli Duw yn effeithiol hefyd, er i'r dechneg honno gael ei hanwybyddu wrth i'r ddrama fynd rhagddi.

Perfformiad Dafydd Hywel fel Noa oedd angor y cynhyrchiad ac angor pur solet oedd e hefyd. Dibynwyd yn y lle cyntaf ar ei allu naturiol i gyfleu hynawsedd a ffraethineb ond adeiladwyd ar hynny wrth i densiynau'r ddrama ddod i'r amlwg. Roedd yn berfformiad aeddfed tu hwnt a gwnaeth i'r cyfan ymddangos yn dwyllodrus o hawdd.

Roedd Eirlys Parri hithau yn gwneud Mrs Noa effeithiol iawn - perfformiad hyfryd o ddirodres. Ond nid noson y sêr unigol oedd hi, ond dwy awr o lafur caled gan griw amryddawn. Gresyn nad oedd mwy o oedolion yno i'w gweld. Nid rhywbeth i ddiddori plant yn unig ddylai ymdriniaeth o berthynas dyn a Duw fod.

# O'R SEDD GEFN

Roeddwn i wedi bwriadu sôn am ddwy ffilm o Gymru y tro yma - dwy ffilm gyda llaw a wnaethpwyd ar gyfer y teledu, sef, MADAM WEN a GIRO CITY. Ffilm Gymraeg wrth gwrs yw MADAM WEN am Gymru'r gorffennol a ffilm Saesneg yw GIRO CITY am Gymru'r oes hon. (Gobeithio nad oes 'na ormod o arwydd-ocâd yn hynny!). Ond er cystal yw'r ddwy, aeth mis a rhagor heibio ers i ni weld y naill ffilm a'r llall a thybiais mai callach felly fyddai sôn am rywbeth mwy amserol a chyfoes.

Nid yn aml mae ffilm newydd sbon yn ein cyrraedd ni yma yng Nghaerdydd bron yn syth ar ôl cael ei rhyddhau, ond dyna a ddigwyddodd gyda RETURN OF THE SOLDIER (Bridges) a lwyddodd i ddod i ganol ein prifddinas NI prin wythnos ar ôl cael ei dangos yn eu prifddinas NHW. Mae RETURN OF THE SOLDIER yn ffilm hardd, sensitif a chwaethus sy'n gwneud cyfiawnder digon â nofel Rebecca West y mae hi wedi'i seilio arni.

Sôn a wna'r ffilm am Swyddog cefnog yn y fyddin (Alan Bates) yn dod adre o'r Rhyfel Byd cyntaf. Mae erchyllterau'r rhyfel yn drech nag e a phan ddaw nôl mae wedi drysu ac mae talpiau mawr o'i orffennol wedi'u dileu o'i gof gan gynnwys unrhyw ymwybyddiaeth o'i briodas â Kitty (Julie Christie). O ganlyniad i hyn mae'r teligram sy'n dwyn y newydd am ei salwch a'r ffaith ei fod mewn ysbyty yn mynd at Margaret, cyn-gariad iddo (Glenda Jackson), yn lle mynd at Kitty. Mae hyn nid yn unig yn cythruddo'i wraig ond mae hefyd yn cymhlethu'r sefyllfa'n ddybryd oherwydd yn gwbl ddisymwth dyma gyfnod tyner yn hanes ei gŵr yn dod i'r wyneb ar ôl bron ugain mlynedd yn y cysgodion.

Heb ddatgelu gormod o'r stori daw Margaret yn gymeriad allweddol a chanolog yn adferiad Crhis, y Swyddog,i normalrwydd gyda'r Dr. Anderson (Ian Holm) yn estyn llaw iddo hefyd.

Er gwaetha'r ffaith fod y ffilm wedi cael mwy na'i siâr o broblemau ariannol does dim un arwydd fod Alan Bridges wedi gorfod cwtogi ar ddim byd. Mae'r ffilm yn wledd i'r llygaid gyda rhai golygfeydd hynod hardd. Yn ogystal â chelfyddyd yr ochr dechnegol mae Bridges wedi llwyddo i ddal naws y cyfnod i'r dim - yn geir, dillad a chelfi. Byddai rhai o bosib yn dadlau fod gormod o bwyslais ar drugareddau fel hyn a dim digon ar undod y ffilm, oherwydd mewn gwirionedd mae dwy stori os nad tair o fewn y ffilm. Yn gynta i gyd mae'r plot canolog, sef dychweliad Chris o'r rhyfel ac effaith hwnnw ar ei gof a'i fywyd. Mae'r elfen ganolog 'ma yn debyg i ryw fath o delyneg gyda Chris yn ceisio crafangu am lefel o hapusrwydd sy wedi hen ddiflannu. Y daith hir tuag at sylweddoli mai peth diflanedig yw'r hapusrwydd neu'r bodlonrwydd yma yw crescendo'r ffilm. Ond yr un mor afaelgar fyddai canolbwyntio'n llawnach ar ei berthynas â Margaret a gwneud rhyw stori serch seml heb drimins o'r ffilm. Ac yn drydydd efallai gallai Bridges fod wedi gwyrdroi pwyslais y ffilm fel ei bod yn feirniadaeth neu'n adroddiad ar ffolineb rhyfel. Mae'n cyffwrdd â phob un o'r agweddau hyn heb wyntyllu'r un ohonynt yn llwyr. Ond ni ellir gwadu nad yw'r ffilm yn hala dyn i feddwl a hynny wrth iddi chwilota'n anturus yn y meddwl dynol.


Mae RETURN OF THE SOLDIER yn haeddu cynulleidfa dda a byddwn i'n annog pawb i fynd i'w gweld. Mae perfformiad Glenda Jackson yn wefreiddiol ar ôl sbel fach yn yr anialwch (ar wahân i GIRO CITY) ac mae cameo Ian Holm fel y seiciatrydd, Dr. Anderson, yn berffaith.

Ioan Kidd.


CANOLFAN YR URDD
HEOL CONWY
TREGANNA
CAERDYDD

TAFLEN

LLYFRAU
RECORDIAU
CASETIAU
CARDIAU



Ar Agor
10.00 – 7.00 (5.00 Sad)
Ffoniwch Eich Archeb
CAERDYDD 27530


# LLYFRAU

Siân Teifi, CYFAREDD Y CYFARWYDD, Gwasg Cambria, £2.75.
Gwynn ap Gwilym, Richard Lewis (gol.) CYFROL DEYRNGED Y PRIFARDD T. LLEW JONES, Cyhoeddiadau Barddas, £2.50.

"Astudiaeth o fywyd a gwaith y Prifardd T. Llew Jones" yw is-deitl y gyfrol gan Sian Teifi ac mae'n garreg filltir hynod o bwysig yn hanes llenyddiaeth plant, oherwydd hon yw'r gyfrol gyntaf yn Gymraeg sy'n astudiaeth gan un person o waith un llenor plant. Ynddi, olrheinir hanes bywyd "y llew o awdur", cyn trafod ei gynnyrch llenyddol sydd mor niferus ac amrywiol. Trafodir ei waith dan saith pennawd, sef, straeon ditectif; anturiaethau Twm Siôn Cati; clytwaith (sef storiau bywyd y môr, y tollbyrth a'r goets fawr); straeon byrion; llyfrau ffeithiol; llyfrau addysgol; barddoniaeth. Wrth drafod, amlygir barn Sian Teifi fel un gytbwys ac aeddfed, un sy'n deall a gwerthfawrogi llenyddiaeth i blant, a hanfodion llenor plant da. Mae hi'n pwyso a mesur gan gynnig beirniadaeth ddeallus e.e. Trysor y Môrladron, t.34-5, a'r dirgelwch ynglŷn â thebygrwydd syfrdanol 'Un Noson Dywyll' i un o storiau Anthropos. Telir sylw arbennig i 'Tân ar y Comin' yn wyneb y ffaith i'r nofel ennill Gwobr Tir na n-Og, er mwyn datrys peth ar y siom a dadrithiad a ddaeth i'r amlwg gan T. Llew Jones, yn gysylltiedig â'r llwyddiant.
Rheidrwydd ar bob athro/athrawes sy'n dysgu plant dros 8 oed yw darllen y llyfr arloesol hwn sy'n cynnwys llyfryddiaeth gyflawn.
Yn ddiweddar, hefyd, cyhoeddwyd CYFROL DEYRNGED Y PRIFARDD T. LLEW JONES "gan ei gyfeillion a'i edmygwyr" yng nghymdeithas Barddas. Mae'r drafodaeth a geir ynddo gan Islwyn Ffowc Elis ar T. Llew Jones y nofelydd yn ychwanegiad sylweddol at astudiaeth Sian Teifi. Trafodir cynfas eang ei nofelau, a rhoddir sylw arbennig i ddyfeisgarwch, dyfalbarhad ac egni'r llenor plant.

Elen Ogwen.

## COLOFN
Shan Emlyn

Fel y byddai'n deud bob blwyddyn yn y golofn hon - hen fis bach hegar ydy mis Chwefror i mi. Ia, dyna chi, mae fy mhenblwydd a chydig o groeso mae'r achlysur hwnnw'n 'i gael fel mae pob blwyddyn yn mynd heibio. Rhaid felly chwilio am ryw haul ar fryn o rywle a chau'r trap dôr yn fy mhen, a cheisio anwybyddu treigl y blynyddoedd a'r dyfodol. Toes 'na ddim pwrpas o gwbwl yn nag oes i boeni am rywbeth nad allwch chi wneud affliw o ddim yn ei gylch? Y cyfan all un 'i wneud ydy, gwneud y gorau o'r canfas fel ag y mae o! P'run bynnag tydy oed, pryd a gwedd ddim yn ôll bwysig o bell ffordd a......

Petawn i'n artist mi dynnwn lun
Rhyfeddod y machlud dros benrhyn Llŷn

Ond nid artist felly ydwi chwaith ac wrth fynd yn hŷn pethau bach sy'n bwysig ac nid rhyw ddigwyddiadau dramatig. Pethau syml sy'n fwyd i'r "enaid" (o ddiffyg gwybod beth arall i'w alw fo). Mae rhywun yn diolch am iechyd, pa mor bynnag fregus ydy hwnnw. Mae rhywun yn diolch ac yn gwerthfawrogi cyfeillgarwch clos. Mae ennyd o wefr wrth wrando ar ambell ddarn o gerddoriaeth yn fwyd. Daw ambell sgwrs o fewn teulu ag agosatrwydd a theimlad cynnes o "berthyn" imi. Pryd blasus arall yw gwrando ar yr iaith Gymraeg ar 'i mwya coeth, boed hynny'n iaith lafar neu'n ddarn o ryddiaeth neu farddoniaeth.

Ar ben y bendithion hyn mae gan bob un ohonom ni stôr arall o fwyd i'n diwallu - bwyd y dychymyg. Dyna i chi ffynhonell ddihysbydd yw honno. Hwyrach mai'r stôr gyfoethoca a'r mwya blasus yw stôr yr atgofion. Be sy'n braf am y stôr honno ydy mai, at 'i gilydd dim ond yr atgofion melys a ddaw i'r wyneb.

Wel wir, pan gyll y call fe gyll ymhell! Wrth ddarllen yr uchod, mae'n amlwg bod yn rhaid imi dderbyn fy mod wedi landio'n solat yng nghanol tymor canol oed, neu fuaswn i byth wedi sgwennu'r fath rwtch! Ond, o ddiffyg rhywbeth gwell i'w ddweud yn fy nghqlofn y mis yma, malu awyr ai peidio, rhaid ceisio bod yn driw i'r Dinesydd a llenwi peth ar 'i gofod!!

---

MERCHED Y WAWR

GWYLIAU PASG, 1983 -
EBRILL 4 - 9
LLYDAW (Gyda Chwmni Math, Aberystwyth)

Lle i 50 ar y bws cysurus: aros mewn dau le GWENGAMP a KEMPER. Croesi ar fferi Llydaw a chabanau i bawb ar y llong: gwestyau gydag ystafelloedd i ddwy a chyfleusterau.

Y tâl am y cyfan o gwmpas £135 (blaendal £50)

Bydd gennym gwrier (arweinydd) sydd yn Llydawr/Llydawes sy'n medru'r Gymraeg.

Os yw'r gwyliau hyn o ddiddordeb i chi gellwch gael manylion pellach oddi wrth Mair Elvet Thomas,
Tre Llywelyn,
26 Gerddi Plasturton,
CAERDYDD CF1 9HF

Cofiwch mai lle i 50 yn unig sydd ar y bws ac mai'r cyntaf i'r felin gaiff falu. Cewch wyliau cyfangwbl Gymraeg os llenwir y bws.

Bydd yn gyfle gwych i ddod i nabod rhai o'n cyd-Geltiaid yn un o wledydd mwyaf diddorol Ewrop, sef Llydaw.

---

CYFLE I ASTUDIAETH LLAWN-AMSER

Coleg preswyl tymor-hir ar gyfer addysg oedolion yw Coleg Harlech, yn cynnig cyrsiau i ferched a dynion dros 21 - yn arbennig y rhai a adawodd yr ysgol yn gynnar, mewn amryfal bynciau.

Cyrsiau blwyddyn ar gael a chwrs dwy flynedd i ddiploma Prifysgol Cymru.

Mynediad drwy gyfweliad heb angen cymwysterau. Grantiau i fyfyrwyr a phobl ddibynnol arnynt.

YSGRIFENNER AT Y COFRESTRYDD, COLEG HARLECH, HARLECH, GWYNEDD, LL46 2PU, AM Y PROSPECTWS A FFURFLEN GAIS.

COLEG HARLECH

# LANSIO STEDDFOD YR URDD

NOSON GYMRAEG YR URDD -
NEUADD DEWI SANT

Ar nos Fawrth, Mawrth 8fed eleni, caiff Cymry'r Ddinas y cyfle cyntaf i weld ein hieuenctid yn ymddangos ar lwyfan ein Neuadd Gyngerdd newydd.

Cyngerdd amrywiol Cymraeg ydyw a fydd yn rhoi cyhoeddusrwydd i ddyfodiad Eisteddfod yr Urdd i'r brifddinas yn 1985.

Derbyniodd naw ysgol gynradd a chwe ysgol uwch-radd wahoddiad y Pwyllgor Cerdd i ymddangos yn y noson: Ysgolion Cynradd Brynderi, Radyr, Landsdowne, Melin Gruffydd, Rhydypennau, Llwynfedw, Y Wern, Penarth, Coed y Gof, Bryntaf; Ysgolion Uwchradd Glantaf, Esgob Llandaf, Howardian, Fitzalan, Hafod y Waun, Howells.

Mae'r tocynnau ar werth yn y Neuadd : £3 : £2 : £1.50 i oedolion a £1 i blant a phensiynwyr.

Llywydd y noson fydd Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith sef Mr. J.E. Malcolm Thomas, prifathro Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf.

Cyflwynydd y noson fydd Emyr Jenkins, is-gadeirydd y pwyllgor cerdd, a'r rheolwr llwyfan fydd yr ysgrifennydd, Howard Goodfellow.

Dowch yn llu i gefnogi dyfodol ein cenedl.

Alun Guy,
Cadeirydd y Pwyllgor Cerdd.

---

Carai'r Dinesydd ddiolch i Gymdeithas Gelfyddydau De-ddwyrain Cymru ac i'r Swyddfa Gymreig am eu cefnogaeth ariannol at gostau'r Dinesydd.

---

Dylid anfon holl ddeunydd ar gyfer rhifyn MAWRTH at Mrs. N. Couch, 2 Crystal Glen, Y Mynydd Bychan, Caerdydd (753626) erbyn 18 Chwefror, 1983.

# LLYTHYRAU

Annwyl Gyd-ddarllenwyr,

Siopau ar Agor ar y Sul

Rwyn sicr y byddwch yn synnu derbyn llythyr o dan y teitl "siopau ar agor ar y Sul" ac y byddwchyn gofyn ym mha gysylltiad yr ysgrifennaf atoch.

Y gwir amdani yw bod nifer o newidiadau mawr ar droed sy'n ymwneud ag oriau siopau o'r chwe niwrnod presennol i un sy'n bwriadu agor siopau hyd yn oed ar y Sul. Ni fydd unrhyw reolaeth ar oriau agor na chau - mae'r llywodraeth yn rhagweld rhyddid llwyr 24 awr y dydd - 7 niwrnod yr wythnos.

Mae'r bwriad i newid y gyfraith wedi ei ategu yn natganiad y Prifweinidog i'r Tŷ Cyffredin ddydd Llun, Hydref 18fed, a does dim amheuaeth mai'r cam nesaf fydd cyflwyno'r mesur yn Nhy'r Cyffredin yn fuan iawn.

Mae'n ddigon i mi i ddatgan fy mhryder ynglyn â'r bwriad ond hefyd i ddatgan gofid a phryder nifer o bobl sy'n gweithio mewn siopau mawr a bach ledled Cymru.

Mae gweld dirywiad pellach yn safonau bywyd yn peri gofid am y gwn fod bywyd teuluol yn hollbwysig ar benwythnos - adeg pan mae mam a thad a'r plant gyda'i gilydd yn mwynhau pethau gorau bywyd fel teulu.

Gallwn ddychmygu beth fydd masnachu ar y Sul yn ei olygu i lawr ac mae'n llawenydd mawr i mi yn barod i weld cynifer yn ymgynnull ynghyd yn ein cyfarfodydd mor belled i wrthwynebu'r bwriad.

Felly, efallai eich bod yn tybio - "paham sgrifennu ata i - beth sydd angen i mi ei wneud?"

Mae'n syml ddigon - am y tro cyntaf yn ein hanes - mae'r cyflogwyr, eu staff a ninnau yn unol yn ein gwrthwynebiad i'r bwriad a'r absenolwr arwyddocaol ar hyn o bryd, ydy'r Eglwys, y Capel a'r bobl sy'n arwain ein bywydau ysbrydol.

Nid condemniad ydy hyn ond gwahoddiad i arweinwyr pob enwad crefyddol yng Nghymru a thrwy'r de-orllewin i uno gyda ni - yn ein brwydr i gadw'r Sul yn sanctaidd.

Ymhob cyfarfod sydd wedi ei drefnu yn y misoedd nesa (cyfarfodydd a fydd wedi'u hysbysu'n amlwg yn y wasg) fe fyddwn yn croesawu i'r llwyfan arweinwyr o bob enwad a'n gobaith yw y byddwch chwi yn barod i rannu'r cyfrifoldeb a'r gwaith gyda ni - i geisio cadw'r safonau a'r rhinweddau sydd mor bwysig i lawer ohonom.

Fe fyddai nodyn syml o gefnogaeth, i ddangos parodrwydd i fod gyda ni, yn galondid i filoedd o weithwyr masnachol sy'n ofni unwaith yn rhagor am ddirywiad yn safonau ei bywyd teuluol.

Diolch o galon a phob bendith.

Yn ddiffuant,

W.J.Jones,
Swyddog Rhanbarthol.

---

OPERA ROC

Opera roc oedd cyflwyniad Nadolig Ysgol Gyfun Llanhari eleni ond er fod yr idiom yn fodern iawn roedd y neges yn draddodiadol a'r stori'n gyfarwydd i bawb. Teitl yr opera yw Y GENI; Emyr Edwards, Y Barri, a ysgrifennodd y geiriau a chyfansoddwyd y gerddoriaeth gan Euros Rhys Evans, y cerddor ifanc, dawnus sy'n aelod o staff yr ysgol.

Prif gymeriad yr opera yw Yr Archangel Gabriel a chwaraewyd gan Siriol Williams ac fe gafwyd perfformiad caboledig ganddi ar y tair noson. Dangosodd Seiriol ei bod yn meddu ar bersonoliaeth llwyfan aeddfed dros ben yn ogystal â llais cyfoethog a hyfryd i'r ryfeddu. Chwaraewyd rhan Herod gan Marc Roberts ac fe lwyddodd yntau, fel Siriol, a'r cast enfawr o dros gant, i swyno a chyfareddu'r gynulleidfa.

Rhyfeddai pawb a welodd yr opera at hyder y cast ifanc a safon uchel y cynhyrchiad drwyddo draw. Roedd y set, y gwisgoedd, ansawdd y sain a'r goleuo, y gerddoriaeth, y symudiadau, yr actio a'r canu yn gwbl broffesiynol a chaboledig. Bendigedig a Gwefreiddiol oedd y ddau ansoddair mwyaf cyffredin i'w clywed ar ôl y tri pherfformiad ac yr oedd yn amlwg fod pawb a welodd y cynhyrchiad wedi cael pleser mawr iawn.
Dim ond un nodyn trist oedd i'r digwyddiad - yr opera hon oedd cynhyrchiad olaf Miss Rhiannon Rees fel aelod o staff Ysgol Llanhari. Dros y blynyddoedd y mae hi wedi adeiladu Adran Ddrama lewyrchus iawn yn yr ysgol ac y mae llu o ddisgyblion wedi elwa ar ei chyfarwyddyd a chynulleidfaoedd lleol a chenedlaethol wedi cael pleser mawr ym mherfformiadau'r disgyblion. Mae hi bellach yn aelod o staff yr Adran Plant yn y BBC.


HTV CYMRU


## Ysgrifenydd/ Ysgrifenyddes - Adran Ddrama

Mae arnom angen ysgrifenydd/ysgrifenyddes fwyiog a deallus i weithio i'r adran ddrama yn ein stiwdio newydd yn Y Barri. Yn ychwanegol at gymwysterau ysgrifenyddol da, disgwylir i'r ymgeisydd llwyddiannus fod â'r gallu i ymateb yn siriol mewn pob math o amgylchiadau. Yn y swydd yma bydd cyfle i gwrdd â llawer o bobl ddiddorol, ac ystyrir hi'n gyfle gwych i ddechrau gyrfa ym myd teledu.

**Dylai ymgeiswyr ysgrifennu am ffurflen gais at: Y Rheolwr Personnel, HTV Cymru, Y Ganolfan Deledu, Caerdydd CF1 9XL. (Cyfeiriad DI/197).**

RHYDD HTV GYFLE CYFARTAL I BAWB

# Y CROESAIR ~ Ap Lewsyn RHIF 29



## Ar Draws

1. Rhoddwyd ordor i chwaer y B.D. (8)
5. Adar di-sgor? (6)
9. Y rheithgor yn colli pen ac yn cymryd ci i fod yn gyfrifol am olion y clwyfau arno (8)
10. Bydd sŵn yn taro ar glust (6)
12. Chwarae â thôn ein cyflwr cyntaf (6)
13. Llythrennau wedi eu llunio ar gar siryf ffyslyd (8)
15. Gair ar ddechrau llyfr rhag i enwi adar fynd i orffwylledd (12)
18. Dim ond un ffordd sydd! (4,3,5)
23. Diarddel yn ddireol un o mysg y saint (8)
24. Mynnu (6)
26. Gorchudd i gau'r byd allan (6)
27. Cost afresymol aligator byr? (8)
28. Bresych diraen! Diffeithwch ynghanol y llysiau (6)
29. Crefftwr o dderyn coch gwyllt (8)

## I Lawr

1. Rywsut, camu â'n bryd ar ryw nod (6)
2. Un rhan o dair, a hanner hynny (6)
3. Cartre i Mair a Martha ac i lawer o saint Cymru(7)
4. Y tu mewn inni (4)
6. Buasai yn crio (7)
7. Difoes a diddiwylliant yw hwnnw na ddaw ar 'i union i drefnu (8)
8. Lliaws aneirif yn dod o ganol y mynydd-dir i fedi cnwd (8)
11. Gosodiad mewn gramadeg cyflawn yn rhoi ofn ar rai o'r ddeuddeg (7)
14. Rhaw sgwâr ar fîn y pafin (7)
16. Dygais em wedi ei hailosod i ddangos fy mod wedi synied yn uchel amdano (8)
17. Mae swyn yn drech nag W. (ac yntau yn feddw)(8)
19. Chwenychai (7)
20. Cnaf trofaus yn hoenus ac yn iau (7)
21. Tatws (6)
22. Côr sydd yn canu'n unsain yn y mignenni? (6)
25. Bocs sydd i'w dynnu(4)

## Datrysiad Croesair Rhif 28

Ar Draws: 1. Y BUGEILIAID; 7. A.M.; 8. O.C.; 10. ATABAL; 13. PRESEB; 16. A.A.; 17. NOD; 19. IE; 20. ELÏAU; 22. GWYRTH; 24. PWDIN; 27. MYRR; 29. SIOE; 31. A.D.; 32. NADOLIG; 35. Y.H.; 38 a 40. SION CORN; 43. BERF; 46. REIS; 48. NIA; 50. EBE; 53. DOETHION; 56. LANTERN; 59. WENU; 60. TW; 61. YN; 62. ARALL; 63. YR; 64. SIAR; 65. NWYF; 66. SI.

I Lawr: 1. YMA: 2. UNA; 3. ER; 4. LU; 5. AUR; 6. DOS; 7. ATAL; 9. CEIR; 10. SAER MAEN; 11. BWA; 12. TO; 14. ELW; 15. BETHLEHEM; 17. NAW; 18. DAI; 21. IAR; 23. YDI; 24. PIA; 26. NAI; 28. YD; 30. O.Y.; 33. DA; 34. LE; 36. TIR; 37. TRE; 38. SEREN; 39. OFNI; 41. OREN; 42. NIFER; 44. CANWR; 45. CELYN; 47. ADWY; 49. IOTA; 51. BANW; 52. ENLLI; 54. OER; 55. THUS; 57. TAF; 58. RAS

## CYLCH CINIO CYMRAEG CAERDYDD

Er ei sylfaenu ym 1951 bu'r Cylch yn cyfarfod am 1 o'r gloch y prynhawn, ond o ddechrau 1983 ymlaen fe fydd yn cyfarfod bob yn ail fis am 7.30 yr hwyr, gan ddechrau ar nos Lun, Chwefror 7fed. Y prif westai fydd Mr. Dafydd Williams, Ysgrifennydd Cyffredinol Plaid Cymru.

Os bydd y trefniadau newydd yn ei gwneud hi'n bosib i rywrai a garai ymuno â'r cylch i ystyried o'r newydd, mae croeso iddynt gysylltu â'r Ysgrifennydd, Gwyn Lewis Davies, 13, Rannoch Drive, Cyncoed (Ffôn: Caerdydd 756882). Mae rhaglen 1983 ar gael.

Swyddogion 1983, Llywydd, Dennis Francis Ysw.; Is-lywydd, Y Barnwr Dewi Watkin Powell; Trysorydd, Brian G. Evans Ysw.

---

O hyn ymlaen bydd geirfa ddewisol o eiriau anodd ar gefn pob rhifyn o'r Dinesydd. Byddant o gymorth arbennig i ddysgwyr. Ond camp i bawb ddod o hyd i'r geiriau yng nghorff y papur.

taflegrau niwclear - nuclear missiles
dynoliaeth - mankind
pwnc llosg - a controversial issue
chwaethus - tasteful
erchyllterau - atrocities
cythruddo - to annoy
dwli - to love, to be delighted
cwtogi - to curtail
cymariaethau - similies
murlun - mural
dychrynllyd - frightful
llipa - limp



Argraffwyd gan Fingerprints(TU), Caerdydd. FP282